
# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir y Fflint

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd mis Hydref 2010 (oni nodir yn wahanol).

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Stephen Martin a Karen Lees o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Sir y Fflint? 04

A yw Cyngor Sir y Fflint yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Sir y Fflint yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella? 07

A yw Cyngor Sir y Fflint yn gwasanaethu pobl yn dda? 09

A yw Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi pobl mewn angen? 11

A yw Cyngor Sir y Fflint yn helpu pobl i ddatblygu? 17

A yw Cyngor Sir y Fflint yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a difyr i fyw ynddo? 20

Beth ddylai Cyngor Sir y Fflint ei wneud? 24


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 25

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint 27

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 28

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir y Fflint 29

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Sir y Fflint 31

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 34

# Pa fath o ardal yw Sir y Fflint?

## Gwybodaeth gefndir

1 Mae gan Sir y Fflint boblogaeth o tua 148,900. Mae tua 25,800 o bobl 65 oed a hŷn a 28,200 o blant. Rhagwelir bydd poblogaeth y sir yn cynyddu i 152,120 erbyn 2033.

2 Mae gan Sir y Fflint dirwedd gymysg o drefi arfordirol fel y Fflint a Mostyn, hen dref farchnad yr Wyddgrug a'r bryniau o amgylch Mynydd Gobaith yn ne'r sir. Mae gan rannau o Sir y Fflint ddiwydiannau gweithgynhyrchu mawr ac mae'r ardal yn adnabyddus am ei chwmnïau rhyngrwyd.

3 Yn 2008 roedd cyfradd cyflogaeth Sir y Fflint yn 78.8 y cant; dyma'r gyfradd uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn 2008, Sir y Fflint oedd â'r gyfradd isaf ond un o blant sy'n byw mewn cartrefi di-waith ymysg awdurdodau lleol Cymru. Yn ogystal â chael lefelau cyflogaeth da, roedd yr enillion wythnosol o £538 ar gyfartaledd yn un o'r uchaf yng Nghymru.

4 Mae disgwyliad oes yn Sir y Fflint ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae rhai agweddau eraill o ran iechyd hefyd ychydig yn well na'r cyfartaledd. Maent yn cynnwys lles ac iechyd meddwl ac mae cyfradd beichiogrwydd yn yr arddegau yn Sir y Fflint yn is na'r cyfartaledd.

5 Mae mwy o wybodaeth am Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yn Atodiad 2.

poblogaeth
148,900
/////////////

28,200 yn 0-16 oed
25,800 yn >65 oed
/////////////

cyfradd cyflogaeth
78.8%
/////////////

# A yw Cyngor Sir y Fflint yn cael ei reoli'n dda?

6 **Mae'r Cyngor yn mynd ati i hyrwyddo gwella ac mae rhai trefniadau heb eu datblygu'n llawn.** Dyma oedd casgliad cyffredinol adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gynhyrchwyd ym mis Awst 2010 o'r enw *Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol* sy'n rhoi peth gwybodaeth am sut y mae'r Cyngor yn cael ei drefnu a'i reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os ydych am ddarllen *Adroddiad yr Asesiad Corfforaethol* yn ei gyfanrwydd mae ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

7 Yn ôl yr adroddiad, yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â rhai materion nad oedd wedi cael sylw yn y gorffennol. Bu llawer o welliannau da yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cael ei redeg ond mae'r sefyllfa wleidyddol yn fregus ac nid yw trefniadau rheoli arian a staff y Cyngor wedi eu datblygu'n llawn hyd yn hyn.

8 Darganfuwyd bod cynghorwyr ac uwch swyddogion yn ceisio gwneud gwelliannau ond bod yr amryfal grwpiau gwleidyddol a'r berthynas anodd rhwng cynghorwyr yn broblem ar adegau. Mae blaenoriaethau a pholisïau'r Cyngor yn dod yn gliriach ac mae dull da o weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill.

9 Gan amlaf, mae'r Cyngor wedi rheoli ei arian yn dda ond bu peth gorwario dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r toriadau tebygol yng nghyllid y llywodraeth trwy 'Raglen Dyfodol Sir y Fflint'. Mae'r gwaith o gynllunio'r hyn sydd angen i'r Cyngor ei wneud a monitro cynnydd wedi gwella'n sylweddol ond nid da lle gellir gwell. Er y bu peth gwelliant, mae angen cael gwell trefniadau ar gyfer rheoli a chynorthwyo staff o hyd.

10 Ers hynny, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor wedi newid yn dilyn sefydlu grŵp newydd o naw o gynghorwyr o'r enw'r 'Annibynwyr Newydd'. Mae'r Cyngor yn parhau i gael ei arwain gan glymblaid aml-blaid.

11 Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn olrhain cynnydd yn cael ei wella o ganlyniad i'r newidiadau i Asesiad Strategol o'r Risgiau a'r Sialensiau (SARC). Mae hon yn ddogfen weithio sy'n nodi tua 60 o faterion lle mae angen gwelliant mawr neu lle mae newid sylweddol ar waith, lle mae newid yn angenrheidiol neu wedi'i gynllunio. Bydd y newidiadau yn rhoi mwy o bwyslais ar wirio a yw'r broblem wreiddiol yn dal i fodoli yn ogystal ag olrhain a yw'r camau gweithredu wedi'u cwblhau.

12 Mae pob gwasanaeth cyhoeddus bron yn wynebu gostyngiadau mewn cyllid. Cyllid refeniw yw'r arian y mae'r cynghorau yn ei wario ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweld gostyngiad o tua £3.2 miliwn (1.7 y cant) yn y cyllid refeniw y mae'n ei gael gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl ychwanegu chwyddiant at hyn, mae'n golygu bod gostyngiad mewn termau real o tua £6.7 miliwn (3.6 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos gostyngiadau termau real pellach yng nghyllid refeniw y Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

13 Cyllid cyfalaf yw'r arian y mae'r cynghorau yn ei wario ar brosiectau cyfalaf ac ar waith ar y seilwaith, er enghraifft adeiladau newydd, gwella'r ffyrdd ac ati. Mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn mynd i gael ei ostwng yn sylweddol. Dyfernir swm cyffredinol i gynghorau ar gyfer gwariant cyfalaf, a disgwylir i gynghorau gyflwyno ceisiadau am arian grant ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf penodol. Bydd cyfanswm y cyfalaf a fydd ar gael i'r cynghorau yn gostwng

14 y cant yn 2011-12 (gostyngiad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes ffigurau swyddogol ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â'r gostyngiad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn cael ei gwtogi tua 34 y cant (tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2014-15.

14 Mae'r Cyngor wedi bod yn ymwybodol ers peth amser y dylai sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddo mor effeithiol â phosibl ac mewn rhai achosion dylai gwtogi ar yr hyn y mae'n ei wneud. Mae'r Cyngor wedi gwneud mwy o waith i ddatblygu ei 'Raglen Dyfodol Sir y Fflint' er mwyn cynllunio sut y gall addasu i gyfnod o ostyngiad sylweddol mewn cyllid trwy newidiadau sy'n gwneud y Cyngor yn fwy effeithlon a dewisiadau ynglŷn â pha wasanaethau y gellid eu darparu mewn gwahanol ffyrdd neu eu cwtogi. Penodwyd Rheolwr Rhaglen, ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd bellach wedi cychwyn yn y swydd ac mae tîm prosiect o bobl sydd ar secondiad o'u hadrannau wedi'i sefydlu. Mae rhaglen o arbedion a newidiadau wedi'i thrafod yn anffurfiol gyda chynghorwyr cyn ei hystyried yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2010. O ystyried y newidiadau disgwyliedig i'r cyllid a geir gan Lywodraeth y Cynulliad a'r pwysau ar wariant, rhagwelir felly bod angen arbedion o £12 miliwn ar gyfer 2011-12 a £14 miliwn pellach bob blwyddyn am y ddwy flynedd ddilynol.

15 Cam cyntaf pwysig ar gyfer y Cyngor yw casglu'r dreth gyngor sy'n ddyledus iddo. Yn 2009-10 roedd gan y Cyngor gyfradd casglu treth gyngor uwch na'r cyfartaledd a'r gyfradd isaf o ôl-ddyledion yng Nghymru. Fodd bynnag, daeth y pwysau presennol ar gyllid i'r amlwg drwy'r anhawster parhaus i reoli'r gyllideb ar gyfer lleoliadau plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor (sef plant sy'n derbyn gofal). Mae gorwario yn y maes hwn, maes sy'n ddibynnol ar y galw, wedi cyfrannu at ragolwg ym mis Tachwedd 2010 y bydd y Cyngor yn gorwario £0.6 miliwn erbyn diwedd mis Mawrth 2011, er y gwneir ymdrechion i wneud newidiadau er mwyn lleihau'r lefel hwn.

16 Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiynau. Mae ei Lythyr Archwilio Blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r cyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn fel Atodiad 4. Darganfyddodd yr Archwilydd a benodwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion adrodd am welliannau ariannol a pherfformiad ond bod lle i wella rheolaethau ariannol mewn rhai meysydd a dylai'r Cyngor ddatblygu ymhellach ei flaengynlluniau ariannol i'w helpu i ymateb i heriau ariannol sylweddol y dyfodol.

17 Mae mwy o wybodaeth am hawliau pobl mewn perthynas â chyfrifon y cyngor yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: Eich Hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

# A yw Cyngor Sir y Fflint yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella?

18 **Mae'r Cyngor wedi nodi datganiad o'i flaenoriaethau sy'n cynnwys ei drefniadau mewnol yn ogystal â'i amcanion ar gyfer gwella gwasanaethau i drigolion Sir y Fflint. Mae ei flaenoriaethau a'i drefniadau cynllunio yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.**

19 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyngor gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella'r hyn y maent yn ei wneud a sut maent yn ei wneud. Mae'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi rhestr o'r blaenoriaethau y maent yn bwriadu eu gwella bob blwyddyn - eu hamcanion gwella. Nid oes raid i gynghorau ddefnyddio'r teitlau 'amcanion gwella' a 'chynllun gwella' cyn belled â'u bod yn nodi'n glir eu bod yn cyflawni eu dyletswydd statudol.

20 Ym mis Mai 2010, cytunodd Gweithrediaeth y Cyngor ar ddatganiad o 'Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth' ar gyfer y cyfnod 2010 i 2012. Gwnaeth hynny er mwyn egluro disgwyliadau, sicrhau bod y swyddogion a'r aelodau gwleidyddol arweiniol yn gweithio i gyfres gyson o flaenoriaethau, ac er mwyn ymateb i sylwadau gan Swyddfa Archwilio Cymru y dylai prif uchelgeisiau'r Cyngor fod yn gliriach. Rydym wedi ystyried y blaenoriaethau hyn fel yr 'amcanion gwella' sy'n ofynnol i'r Cyngor eu cyhoeddi.

21 Mae datganiad Blaenoriaethau'r Weinyddiaeth yn cynnwys 10 o flaenoriaethau ynglŷn â'i drefniadau mewnol ac mae 30 yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu rhestru yn Atodiad 5 ac yn cael eu crynhoi dan brif benawdau'r adran nesaf. Mae blaenoriaethau'r gwasanaethau cyhoeddus yn cyfateb i 'Weledigaeth y Sir' yn Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint sydd â'r nod o weld Sir y Fflint yn sir lle mae:

- ffyniant economaidd;
- iechyd yn gwella drwy bopeth a wnawn;
- pobl yn dysgu a meithrin sgiliau;
- pobl yn byw'n gynaliadwy; a
- cymunedau diogel a chynhaliol.

22 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Cyhoeddwyd Blaenoriaethau'r Weinyddiaeth gyda'r papurau ar gyfer cyfarfod y Weithrediaeth ym mis Mai 2010 ond ni chyflwynwyd y papurau i'r Cyngor llawn, ni chawsant eu rhoi ar wefan y Cyngor na'u cyhoeddi yng nghylchlythyr y Cyngor *Eich Cymuned Chi, Eich Cyngor Chi*. Rydym yn credu y gallai'r Cyngor fod wedi gwneud mwy i rannu ei flaenoriaethau gyda'r cyhoedd a'r partneriaid. Caiff y blaenoriaethau eu rhestru yn yr *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2009-10* a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ym mis Hydref 2010. Mae'n nodi y bydd datganiad o Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth yn cael ei adolygu gan y Weithrediaeth a'i gyhoeddi ar ôl yr arolygiad.

23 Mae mwyafrif y blaenoriaethau yn bryderon cyfredol sydd eisoes wedi'u cynnwys yn SARC, y strategaethau a'r cynlluniau. Fodd bynnag, mae rhai o gynlluniau'r gwasanaethau a'r gyfarwyddiaeth yn rhestru'r blaenoriaethau perthnasol ond nid yw'n glir beth yw eu pwysigrwydd ochr yn ochr â llawer o'r blaenoriaethau eraill sy'n bodoli.

24 Mae'r holl flaenoriaethau yn cynnwys un neu fwy o'r saith maen prawf sy'n ddisgwyliedig gan Lywodraeth y Cynulliad – sef y dylent fod yn ymwneud ag effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, bod y gwasanaethau ar gael, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd neu arloesi. Gwelwyd bod y blaenoriaethau wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n eithaf clir ar y cyfan.

25 Os yw'r Cyngor wedi dewis gwneud rhywbeth yn flaenoriaeth, gall fesur sut bydd hyn yn effeithio ar y bobl leol. Dylai'r Cyngor fedru mesur y camau gweithredu y maent yn eu cymryd ar gyfer cyflawni'r mwyafrif o'u blaenoriaethau, ond nid pob un ohonynt. Nid yw'n glir sut bydd y Cyngor yn adrodd am y cynnydd yn ei waith ar rai o'r blaenoriaethau

26 Mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn dweud y dylai cynghorau ddatblygu deialog parhaus gyda'r cymunedau y mae'n ei wasanaethu gan ymgynghori'n eang ar ei flaenoriaethau. Bu i ni archwilio'r graddau roedd y Cyngor yn ymgysylltu â phobl leol, gweithwyr y Cyngor a'r rhai sy'n gweithio gyda'r Cyngor, wrth roi trefn ar ei flaenoriaethau. Mae'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau yn cael eu llunio o'r cynlluniau cyfredol, cynlluniau y bu rhyw fath o ymgynghori yn eu cylch, neu maent yn ofynion statudol. Fodd bynnag, mae nifer fechan yn flaenoriaethau newydd. Roedd ymgynghori yn digwydd ymysg cynghorwyr ynglŷn â blaenoriaethau ond nid yw'n glir bod staff (ar wahân i uwch swyddogion), partneriaid neu'r gymuned ehangach yn rhan ohono/wedi'u cynnwys. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod gan staff a phartneriaid sy'n ymdrin yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau yn aml syniadau da ynglŷn â sut i newid pethau am y gorau ac yn absenoldeb ymgynghori nid oes sicrwydd y ceir cefnogaeth y cyhoedd i'r hyn maent am ei wneud.

27 Yn olaf, archwiliwyd pa mor dda y mae cynlluniau'r Cyngor i gefnogi ei ymdrechion i wella ac a yw'n gallu fforddio talu am y gwelliannau hyn. Ni fu unrhyw waith penodol i egluro cost gyffredinol darparu'r rhaglen o flaenoriaethau. Fodd bynnag, mae rhai blaenoriaethau wedi cael eu prisio fel rhan o gynlluniau eraill ac mae rhai blaenoriaethau ynglŷn â denu incwm na chymryd camau a fydd yn lleihau costau'r cyngor. Yn ôl yr adroddiad i'r Weithrediaeth gyda Blaenoriaethau'r Weinyddiaeth nid oedd goblygiadau uniongyrchol ariannol ond nodwyd bod y Cyngor yn wynebu dyfodol ariannol a fydd yn llawn her. Bydd adolygiad o'r blaenoriaethau yn dilyn ystyriaeth bellach o waith cychwynnol Dyfodol Sir y Fflint.

28 Hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor wedi datblygu proses i fonitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y gyfres o Flaenoriaethau Weinyddiaeth er, gan mai ond newydd gael eu mabwysiadu y maent, disgwylir y bydd hyn yn cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf.

29 Trwy ei ddogfennau amrywiol, mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ei amcanion a'i gynlluniau gwella. Fodd bynnag, gallai wneud mwy i wella ymgynghori, a'u gwneud yn haws i'w deall a sicrhau bod mesurau llwyddiant yn glir, yn gadarn ac yn llywio cynlluniau polisïau a gwasanaethau.

# A yw Cyngor Sir y Fflint yn gwasanaethu pobl yn dda?

30 **Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth wella ei wasanaethau ac mae hyn wedi ei adlewyrchu mewn perfformiad yn erbyn targedau sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer llawer o wasanaethau. Fodd bynnag, mae llawer o wasanaethau hefyd nad ydynt yn perfformio i safon uchel ar hyn o bryd.**

31 Trwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn gobeithio creu darlun yn raddol sy'n dangos i ba raddau y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio sut mae gwasanaethau'r Cyngor a rhai o'u hamcanion ar gyfer gwella yn dylanwadu ar dair agwedd bwysig ar fywyd yn Sir y Fflint. Rydym yn credu bod yr agweddau hyn, gyda'i gilydd, yn cynnwys mwyafrif y gwasanaethau y mae'r cynghorau yn eu darparu ar gyfer eu dinasyddion. Dyma'r gwasanaethau:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu pobl i greu lle diogel, ffyniannus a difyr i fyw ynddo.

32 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi ystyried sut mae'r Cyngor yn perfformio hyd yn hyn ar flaenoriaethau Sir y Fflint. Rydym wedi dewis edrych ar yr holl flaenoriaethau ond nid yn fanwl iawn gan y byddwn yn ystyried rhai yn fanylach yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf. Ar wahân i'w flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau, mae gan y Cyngor hefyd flaenoriaethau corfforaethol i wella ei drefniadau mewnol ac rydym yn rhoi sylw iddynt isod.

## A yw'r Cyngor yn gwella ei drefniadau mewnol?

33 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 10 o flaenoriaethau ar gyfer gwella ei drefniadau llywodraethu a pherfformio mewnol. Dyma'r blaenoriaethau (yn gryno):

- hyrwyddo a chynnal enw da cadarnhaol a sicr i'r Cyngor a'r sir yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol;
- parhau i wneud newidiadau graddol i ddiwylliant, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, cymhwysedd, a pherfformiad y sefydliad;
- datblygu a dilyn strategaeth ariannol gadarn yn y tymor canolig a'r tymor hir gan gynnal lefel fforddiadwy o'r dreth gyngor ar gyfer trethdalwyr lleol;
- goroesi a ffynnu yn sgil y gostyngiadau mewn refeniw a chyfalaf ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y blynyddoedd nesaf;
- cyrraedd lefelau uchel a chyson o wasanaeth cwsmeriaid;
- cyflawni nodau ac amcanion Strategaeth y Bobl gyda phwyslais ar ddulliau rheoli pobl, rheoli perfformiad, rheoli presenoldeb a gweithio ystwyth;
- cyflawni Cytundeb Statws Sengl[1] cyfreithiol, derbyniol a fforddiadwy;
- gweithredu cynlluniau parhad busnes effeithiol i ddiogelu gwasanaethau allweddol;
- moderneiddio a gwella gweithdrefnau a pherfformiad y cyngor mewn dulliau caffael;
- manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio tir a sylfaen asedau'r Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r cyngor ac ennill y derbyniadau neu'r incwm cyfalaf mwyaf posibl.

1 Statws Sengl yw'r teitl a roddir i gytundeb cenedlaethol a gyrhaeddwyd ym 1997 gyda'r nod o hwyluso amodau a thelerau gwasanaeth ar gyfer gweithwyr cyflogedig, gan ddileu unrhyw annhegwch yn y trefniadau cyflog a gwobrwyo.

34 Mae'r rhain oll yn flaenoriaethau priodol ar gyfer y Cyngor ac maent yn cynnwys materion lle mae newidiadau y dylid ymateb iddynt, lle bu gwendidau a nodwyd neu faterion pwysig parhaus. Bydd gwella yn y meysydd hyn yn helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon. Nid yw'r un ohonynt yn flaenoriaethau newydd i'r Cyngor.

35 Mae'r Cyngor yn gwneud llawer o bethau i hyrwyddo enw da'r Cyngor a'r sir, er enghraifft trwy gystadlu am lawer o wobrau cenedlaethol a'u hennill. Mae hefyd wedi ceisio datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r cyfryngau a phapurau newydd lleol. Fodd bynnag, mae mwy y gallai uwch reolwyr ac aelodau'r Weithrediaeth ei wneud i baratoi'r dull cyfathrebu y dylid ei ddefnyddio i ymdrin â materion anodd.

36 Mae rhai o'r blaenoriaethau (fel gwella effeithlonrwydd y sefydliad, cynllun ariannol tymor canolig, goroesi mewn blynyddoedd o gynni ariannol, caffael, a'r defnydd o dir ac adeiladau), yn gysylltiedig â gwaith Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu dros y flwyddyn nesaf a bydd yn nodi rhaglen o newid y bydd y Cyngor yn ei chyflawni i ymateb i'r heriau ariannol.

37 Mae gan y Cyngor gynlluniau i wella'r dulliau cysylltu â'r Cyngor a dulliau pobl o ddefnyddio gwasanaethau. Maent yn cynnwys gwella'r wefan a'r trefniadau ffôn. Mae prosiect wedi cychwyn a fydd yn canfod dulliau o wella profiad y cwsmer wrth ymdrin â'r Cyngor wyneb yn wyneb. Wrth i'r Cyngor gychwyn ar gyfnod o gynni ariannol bydd hi'n bwysig bod pobl yn sylweddoli ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r Cyngor a bod y Cyngor yn clywed ac yn gwrando ar bryderon pobl.

38 Mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau brys gyda Chyngor Sir Ddinbych er mwyn helpu i ymateb petai sefyllfa o argyfwng y tu hwnt i ddarpariaethau'r Cyngor.

39 Bydd cwblhau'r broses o gyflawni Cytundeb Statws Sengl priodol yn ystod 2011 yn bwysig trwy alluogi'r Cyngor i symud ymlaen mewn llawer o feysydd a rhyddhau'r amser a'r ymdrech a ddefnyddir ar gyfer y broses ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn adolygu ei sefyllfa ar sut y byddai'n cyflawni unrhyw geisiadau cyflog cyfartal pe baent yn codi.

40 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu cynlluniau Iaith Gymraeg sy'n arwain cynghorau yn y dulliau o ddarparu gwasanaethau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi nodi wyth maes blaenoriaeth sydd angen camau gweithredu er mwyn galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael a'r gwendidau a'r risgiau sylfaenol wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw rhai targedau blaenoriaeth wedi cael eu cyflawni o fewn yr amserlen a nodwyd, ac nid yw'r camau gweithredu sy'n ofynnol ar gyfer mynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth eraill yn glir. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi nifer fawr o staff i ddysgu Cymraeg ac eleni gwelwyd cynnydd yn y niferoedd o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r Bwrdd wedi canfod bod gwefan y Cyngor, y dogfennau etholiadol a hysbysebion statudol a recriwtio yn cydymffurfio â Chynllun yr Iaith Gymraeg. Canmolwyd y Cyngor hefyd am dreialu dull asesu effaith yr Iaith Gymraeg er mwyn prif ffrydio'r Iaith Gymraeg i'r broses o ddatblygu polisïau, cynlluniau a mentrau newydd.

# A yw Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi pobl mewn angen?

41 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

42 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir. 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd, a'r nod yw pennu llinell sylfaen yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

43 O safbwynt oedolion, mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn sicrhau bod pobl yn gadael yr ysbyty yn effeithiol ac ar adeg briodol. Mae amrywiaeth gynyddol o wasanaethau i gefnogi annibyniaeth a darperir cymhorthion a chyfarpar yn brydlon a gwasanaethau gofal cartref a gofal dydd. Gwelwyd effeithiolrwydd y gwasanaethau adsefydlu hyn yn sgil y ffaith fod angen llai o gymorth neu ddim cymorth o gwbl ar 82 y cant o'r bobl hŷn a ddefnyddiodd y gwasanaeth. Dyfarnwyd gwobr i Gynllun Tai Gofal Ychwanegol Shotton gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae mynediad i opsiynau tâl uniongyrchol wedi cynyddu ac maent yn rhoi gwell cyfle i bobl ddewis a rheoli'r sefyllfa eu hunain.

44 Mae angen i'r Cyngor wneud mwy i gwblhau cynlluniau gofal yn brydlon a rhoi mynediad cynt i gymorth ym maes iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a therapi galwedigaethol. Mae hefyd angen cryfhau'r camau ar gyfer comisiynu gwasanaethau i bobl hŷn a gwasanaethau anabledd dysgu.

45 O safbwynt plant, mae'r Cyngor yn darparu asesiadau prydlon ac mae'r hanes o gyfraddau uchel o ail-gyfeirio wedi gwella'n sylweddol. Mae'r dangosyddion ar gyfer trefniadau rheoli gofal ymhlith y gorau yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau gofal maeth o ansawdd da ac mae wedi llwyddo i hyrwyddo cyraeddiadau plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.

46 Serch hynny, mae angen i'r Cyngor wella'i ddyraniad o weithwyr cymdeithasol i blant sy'n derbyn gofal ac i blant mewn angen, a gostwng amserau aros am asesiadau plant ag anableddau gan therapyddion galwedigaethol pediatrig. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio tuag at gryfhau'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol a bydd ei gynnydd yn y cyd-destun hwn yn cael ei fonitro'n barhaus gan AGGCC.

47 Mae'r Cyngor yn defnyddio dadansoddiad o anghenion nas diwallwyd i lywio cynllunio strategol ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol ac mae wedi datblygu mentrau gwasanaeth arobryn ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae cynlluniau gweithredol ar gyfer plant yn cysylltu'n amlwg â'r *Cynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc*, ond mae'r cysylltiadau rhwng cynlluniau gweithredol oedolion a'r *Strategaeth Iechyd, Gofal*

*Cymdeithasol a Lles* yn llai cyson. Llwyddwyd i feithrin diwylliant o gydweithredu â chynghorau partner trwy amrywiol gyrff partneriaeth Gogledd Cymru. Mae hefyd nifer o wasanaethau a ddarperir ar y cyd gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth ac ymwelwyr annibynnol a'r consortia mabwysiadu rhanbarthol.

48 Mae'r Cyngor yn cael mwy a mwy o lwyddiant yn recriwtio ym maes gwaith cymdeithasol ac mae camau ar waith i fynd i'r afael â lefelau uchel o absenoldeb ymhlith staff. Datblygwyd 'Cynllun y Bobl' ar gyfer y gyfarwyddiaeth i sbarduno cynnydd ar amrywiol faterion yn ymwneud â staff ac i helpu i gydlynu systemau, pobl a sgiliau er mwyn gwella gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod systemau cadarn ar gyfer goruchwylio ac arfarnu gwasanaethau mewn grym ac yn cael eu dilyn.

49 Mae'r Prif Weithredwr yn darparu arweiniad cadarn tra bo swydd y Cyfarwyddwr yn wag. Mae'r agenda gofal cymdeithasol yn manteisio ar gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol dda ac mae cynghorwyr yn cymryd rhan weithredol mewn rhaglen o ymweliadau â gwasanaethau rheng flaen. Defnyddir adborth o'r ymweliadau i lywio gwybodaeth am sicrwydd ansawdd ac i gynllunio gwasanaethau.

## A yw trefniadau cyfiawnder ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc a'r gymuned?

50 Cynhaliodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi arolygiad o drefniadau cyfiawnder ieuenctid Sir y Fflint a chyflwyno adroddiad ym mis Mai 2010. Yn ôl y Prif Arolygydd Prawf: 'Ar y cyfan, mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o'r farn bod y canfyddiadau hyn yn gymeradwy iawn. Esgeulustod y Rheolwyr ym maes Perygl o Niwed yw'r prif faes sydd angen sylw, fel arall nododd yr arolygiad hwn bod llawer o waith da yn cael ei gyflawni'.

51 Roedd agweddau o'r gwaith sy'n ymwneud â diogelu yn cael eu gwneud yn ddigon da 82 y cant o'r amser; roedd amddiffyn y cyhoedd a rheoli risg o niwed i eraill yn cael ei wneud yn ddigon da 77 y cant o'r amser; ac roedd gwaith i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu'n cael ei wneud yn ddigon da 87 y cant o'r amser. Roedd y canlyniadau hyn yn ardderchog o gymharu â gweddill Cymru, ac yn llawer uwch na chyfartalion Cymru.

52 Wrth fynd ati i atgyfnerthu partneriaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol, bwriedir darparu'r Tîm Troseddau Ieuenctid fel gwasanaeth a rennir gan sir y Fflint a Wrecsam.

## A yw'r Cyngor yn gwella iechyd, gofal cymdeithasol a lles?

53 Dyma'r blaenoriaethau y mae'r Cyngor wedi cytuno arnynt er mwyn helpu i wella iechyd a gofal cymdeithasol (yn gryno):

- diogelu oedolion, pobl hŷn a phlant agored i niwed mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol a phartneriaid eraill;
- hyrwyddo byw'n annibynnol a byw â chymorth yn y gymuned trwy ofal cartref cynaliadwy a fforddiadwy, pecynnau cymorth gofal hyblyg, integreiddio gwasanaethau gyda phartneriaid eraill;
- darparu dewisiadau hyblyg o ran byw â chymorth gan gynnwys darpariaeth tai gofal ychwanegol estynedig;
- cynllunio i ddiwallu anghenion gofal amrywiol a chymhleth y gymdeithas gan gynnwys darpariaeth estynedig o wasanaethau demensia;
- datblygu polisi cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir;

- gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd i ymestyn a gwella mynediad i ofal iechyd sylfaenol, i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac i wella'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

54 Mae'r rhain yn amcanion gwella priodol ar gyfer Sir y Fflint oherwydd eu bod yn cysylltu'n dda â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau ac anghenion y trigolion. Nid oes yr un o'r amcanion yn newydd ac maent oll wedi'u cynnwys yn SARC. Maent yn gyson â nod Gweledigaeth y Sir o 'wella iechyd trwy bopeth rydym yn ei wneud' a 'hyrwyddo ac amddiffyn iechyd a lles'. Maent yn cael eu hadlewyrchu hefyd yn y cynlluniau y mae'r Cyngor wedi cytuno arnynt gyda'i bartneriaid – *Cynllun Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint 2008-11* a *Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Sir y Fflint*.

55 Mae'r prif negeseuon oddi wrth AGGCC (uchod) yn darparu peth gwybodaeth am gynnydd o safbwynt rhai o'r blaenoriaethau hyn. Hefyd, rydym wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r Cyngor a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cytuno i ddatblygu cyd Fwrdd Diogelu Plant Lleol. Mae hyn yn un o nifer o fesurau i wella gweithrediad y Bwrdd Diogelu Plant Lleol.

- Mae gweithredu'r system newydd ar gyfer gwybodaeth cleientiaid a llif gwaith wedi cael effaith sylweddol ar waith ymarferwyr o ddydd i ddydd ac mae hefyd wedi golygu na lwyddodd y Cyngor i lunio gwybodaeth gywir am berfformiad cywir ar gyfer rhai rhannau o'r gwasanaeth.

- Fel llawer o gynghorau eraill, mae'r galw cynyddol am roi plant mewn gofal wedi effeithio ar y Cyngor ac ni fu'n bosibl hyd yn hyn i ganfod digon o leoliadau fforddiadwy i'w alluogi i aros o fewn y gyllideb a neilltuwyd. Mae'r adroddiad monitro ariannol ar gyfer y cyfnod at ddiwedd mis Medi 2010 yn nodi bod disgwyl gorwariant o £1.3 miliwn yn y gyllideb ar gyfer lleoliadau o'r fath. Comisiynwyd cwmni ymgynghori i roi arbenigedd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael y gwerth gorau wrth ddefnyddio darparwyr annibynnol. Mae mynd i'r afael â'r angen am leoliadau sefydlog a chost-effeithiol hefyd yn brif flaenoriaeth i Fwrdd Rhaglen Gofal Cymdeithasol Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

- Mae'r Cyngor wedi helpu i gefnogi annibyniaeth pobl gydag anableddau trwy wella'r amser a gymerir i wneud addasiadau i dai lle mae hynny'n ofynnol. Mae'r amser a gymerir i gwblhau addasiad a ariennir trwy Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi gostwng o dros 600 o ddiwrnodau yn 2007-08 i 347 o ddiwrnodau'r llynedd. Mae hyn ychydig yn well na chyfartaledd Cymru er ei fod yn parhau i ddangos cyfnod o oedi hir.

## A yw'r Cyngor yn gwella tai yn y sir?

56 Dyma'r amcanion gwella y mae'r Cyngor wedi eu gosod ar gyfer gwella tai:

- darparu cyflenwad o dai fforddiadwy trwy 'Strategaeth Tai Fforddiadwy';

- gwneud gwelliannau cyflym ac amlwg i ansawdd, hyblygrwydd a pherfformiad y gwasanaethau rheoli trwsio a chynnal a chadw tai;

- pennu dyfodol stoc tai'r Cyngor trwy bleidlais tenantiaid a thrwy strategaeth i gyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru;

- cyhoeddi Ardal Adnewyddu Cymdogaeth gyntaf y Cyngor.

57 Mae'r amcanion gwella hyn yn briodol ar gyfer Sir y Fflint oherwydd bod pob un ohonynt yn faterion lle bu'r cynnydd yn araf. Mae angen arweiniad clir a chytûn gan gynghorwyr er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â rhai o'r materion hir dymor hyn.

58 Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, darparwyd llai o unedau o dai fforddiadwy yn Sir y Fflint nag yn y mwyafrif o gynghorau. Nid yw'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy wedi'i chynnwys yn y brif gyfres o dargedau ar gyfer y Cyngor ac ni aethpwyd i'r afael â'r mater yn y Strategaeth Tai Lleol. Mae'r Cyngor yn iawn i gynyddu'r pwyslais yn y maes hwn ac erbyn hyn mae wedi datblygu cynlluniau i wella'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae'n rhagweld y bydd yn uwch na'r 180 o unedau a ddisgwyliwyd eu darparu yn 2009-2011 yn ei *Ddatganiad Darparu Tai Fforddiadwy* a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad ym mis Medi 2009.

59 Bu perfformiad isel ers peth amser yn y gwasanaethau rheoli, trwsio a chynnal a chadw tai. Mae'r Pennaeth Tai, a benodwyd yn 2009 yn ail-strwythuro nifer o feysydd yr adran ac yn newid y gwasanaeth trwsio yn sylweddol. Mae llawer o agweddau ar y perfformiad yn parhau'n wael. Mae angen mwy o waith er mwyn mynd i'r afael â'r oedi pan fo tai yn wag, cyflymder y gwasanaethau trwsio a chynnal a chadw gan gynnwys cael mynediad er mwyn cynnal gwiriadau diogelwch nwy.

60 Mae llawer o stoc tai'r Cyngor mewn cyflwr drwg ac nid yw'n bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru. Disgwylir i bob awdurdod lleol a chymdeithas tai fabwysiadu Safonau Ansawdd Tai Cymru a llunio rhaglenni realistig i wella'u cartrefi i'r safon hon erbyn diwedd 2012. Ni all y Cyngor wella'u tai i'r safon ddisgwyliedig gyda'r cyllid cyfredol.

61 Yn 2008, mabwysiadodd y Cyngor gynllun i ofyn barn trigolion ar drosglwyddo stoc tai'r Cyngor yn unol â chynllun Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr gan ddarparu dull o sicrhau buddsoddiad sylweddol posibl er mwyn gwella tai i Safonau Ansawdd Tai Cymru. Cynhelir y bleidlais yn ystod hydref 2011 ac mae'r cynnydd hyd yn hyd, o gymharu â phroses trosglwyddo stoc o fewn cynghorau eraill, wedi bod yn araf. Bydd y Cyngor yn parhau'n niwtral ar y cwestiwn o argymell trigolion i bleidleisio 'ie'. Bydd y ddogfen 'Choices' a ddarperir i denantiaid yn dangos pa gynlluniau a fwriedir ar gyfer pleidlais 'ie' a phleidlais 'na'. Bydd sicrhau bod unedau tai awdurdod lleol Sir y Fflint o ansawdd da yn parhau'n dipyn o her.

62 Ym mis Chwefror 2010 cyhoeddwyd Ardal Adnewyddu Cymdogaeth (NRA) gyntaf y Cyngor ar gyfer rhan o Lannau Dyfrdwy. Mae wedi derbyn £0.9 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor ac arian arall er mwyn gwella tai lleol a'r amgylchedd. Mae'n rhan o raglen Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi ac ariannu'r gwaith o wella tai preifat trwy annog cynghorau i weithio gyda chymunedau a phartneriaid lleol. Mae Sir y Fflint wedi bod yn gymharol hwyr yn sefydlu NRA. Erbyn Medi 2009 roedd 57 ardal o'r fath wedi'u cwblhau neu'n weithredol mewn mannau eraill ledled Cymru.

## A yw'r Cyngor yn helpu i leihau tlodi?

63 Dyma'r flaenoriaeth y mae'r Cyngor wedi cytuno arni i helpu i leihau tlodi (yn gryno):

- Lleihau tlodi eithafol, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol er mwyn rhoi cyngor ac estyn y defnydd o fudd-daliadau, mewn partneriaeth ag eraill.

64 Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cydnabod bod tua 25 y cant o blant yn Sir y Fflint yn byw islaw'r lefelau tlodi swyddogol ac mae'r amcan hwn yn cysylltu'n agos ag amcanion Gweledigaeth y Sir. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (LSB)[2] wedi sefydlu grŵp i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi a lleihau anfantais ac mae hyn wedi nodi 'mwyhau incwm hyd yr eithaf' fel maes prosiect allweddol. Mae'n amcan priodol ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid ond nid oes digon wedi'i wneud i gyfuno'r ffyrdd y gall y Cyngor gyfrannu. Cyfeirir at yr amcan hwn mewn rhai o gynlluniau'r gyfarwyddiaeth a gwasanaethau; mae gan bob un o adroddiadau'r Cyngor ddatganiad ynglŷn â'i 'effaith gwrthdlodi', ond nid oes ganddo gofnod o risg SARC ac nid oes cofnod o gynnydd.

65 Mae nifer o ffyrdd y gall y Cyngor gyfrannu at leihau tlodi gan amrywio o'i bolisïau codi tâl am wasanaethau gofal i'r ffyrdd y mae'n cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a'i gefnogaeth ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd. Elfen arall yw sut y mae'n ymdrin â phobl sydd â hawl i hawlio budd-daliadau tai a'r dreth gyngor - nid yw perfformiad y Cyngor yn dda iawn yn y maes hwn ac mae'r Cyngor yn yr ail safle ymhlith holl gynghorau Cymru o ran cymryd yr amser hiraf i ymdrin â hawliadau newydd a newid mewn amgylchiadau. Mae diffyg eglurder ynglŷn â beth sy'n ddisgwyliedig, mae cydgysylltu gweithgarwch yn annigonol, ac nid yw atebolrwydd ar gyfer y flaenoriaeth o leihau tlodi yn cael ei gofnodi'n gyffredinol .

## A yw'r Cyngor yn annog byw'n iach?

66 Dyma'r blaenoriaethau y mae'r Cyngor wedi cytuno arnynt er mwyn annog byw'n iach (yn gryno):

- cyflawni nodau ac amcanion ei 'Strategaeth Hamdden Actif';
- cytuno i ariannu cynllun i ailfodelu Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

67 Mae'r amcanion yn rhai priodol ar gyfer y Cyngor sy'n wynebu costau cynyddol o ddarparu cyfleusterau hamdden, gan fod ansawdd adeiladau'r naw canolfan yn dirywio. Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yw'r ganolfan fwyaf a'r ganolfan hon sy'n cael defnyddio fwyaf ond mae angen gwella'r adeiladau a'r cyfleusterau ar fyrder.

68 Yn 2009, cytunodd y Cyngor ar ei strategaeth gwasanaethau hamdden *Dyfodol Actif 2008-2013*. Roedd yn nodi'r weledigaeth y bydd Sir y Fflint yn 2003 yn lle gwych i bobl fyw a gweithio ac yn lle da i fynd am dro a mwynhau. Bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu trwy ddefnyddio hamdden i ddatblygu addysg gorfforol a chwaraeon, gan hefyd hyrwyddo iechyd a lles. Roedd yn gosod tri amcan:

- cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol a galluogi cymuned Sir y Fflint i ddatblygu ei photensial mewn chwaraeon;
- rheoli ansawdd cyfleusterau;
- adnewyddu portffolio hamdden y sir.

2 Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn arweinwyr y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol o fewn pob sir a fydd yn gweithio ar y cyd i wella'r sir a'i gwasanaethau er lles ei thrigolion, ei hymwelwyr a'i busnesau. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Sir y Fflint yn 2008.

69 Mae rhaglen waith pum mlynedd ar gyfer darparu'r strategaeth ac mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn rhai o'r camau gweithredu - er enghraifft, mae wedi gosod to newydd dros bwll nofio Pafiliwn y Fflint. Fodd bynnag, oherwydd eu hansawdd, mae perygl y bydd rhai'n cau ar fyr rybudd ac mae'n bosibl nad ellir eu trwsio. Hyd yma, dim ond rhai o flaenoriaethau pwysicaf y canolfannau yr aed i'r afael â nhw. Yn ogystal, ni fu modd i'r Cyngor dalu am gynnal a chadw'r 176 o safleoedd chwarae'r sir yn llwyr. Mae'r Strategaeth Chwarae ddiwygiedig yn nodi bod y gyllideb cynnal a chadw a thrwsio blynyddol ar gyfer ardaloedd chwarae yn annigonol o ran cynaliadwyedd tymor hir y safleoedd.

70 Daethpwyd i gytundeb gyda chwmni a fydd yn gweithio gyda'r Cyngor i ailddatblygu Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy. Hyd yma, mae'r cyfleusterau awyr agored wedi gwella llawer ac fe'u hail-agorwyd ym mis Tachwedd 2010. Bydd mwy o waith yn cael ei gwblhau i ddatblygu a chytuno ar gynlluniau'r prif adeiladau a'r safle.

71 Yn y sefyllfa ariannol gyfredol, mae'r amcanion hyn yn parhau'n her sylweddol i'r Cyngor.

# A yw Cyngor Sir y Fflint yn helpu pobl i ddatblygu?

## Gwybodaeth gefndir

72 Mae gan Sir y Fflint tua 24,000 o ddisgyblion ysgol ar hyn o bryd. Mae 74 o ysgolion cynradd ac un ysgol feithrin. Mae pump o'r ysgolion cynradd yn darparu addysg trwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg. Mae un yn ysgol sylfaen. Mae 12 o ysgolion uwchradd gydag un ohonynt yn ysgol cyfrwng Cymraeg.

73 Ym mis Gorffennaf 2009 caewyd y tair ysgol arbennig a oedd yn bodoli ac ym mis Medi 2009 agorwyd dwy ysgol arbenigol newydd a adeiladwyd yn bwrpasol. Mae un Uned Cyfeirio Disgyblion ar wyth o safleoedd gwahanol.

74 Mae Sir y Fflint yn derbyn llai o gyllid fesul disgybl ar gyfer addysg gan Lywodraeth y Cynulliad na'r mwyafrif o gynghorau lle gallai'r cyllid fod yn uwch i gydnabod natur wledig y sir neu lefelau uwch o amddifadedd. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae Sir y Fflint wedi cynyddu cyfanswm ei chyllid Addysg i £105.3 miliwn ac mae'r cyfanswm fesul disgybl wedi codi ar gyfradd sy'n gyflymach na'r cyfartaledd. Mae'r Cyngor yn darparu gwell lefel o gymorth a gwasanaethau ar gyfer disgyblion na'r mwyafrif o awdurdodau ac mae cyfradd y cyllid a ddyrennir i ysgolion yn is nag ar gyfer y mwyafrif o ysgolion.

75 Mae cyrhaeddiad addysg yn cysylltu'n agos â pha mor gefnog yw teuluoedd y disgyblion – mae plant o deuluoedd tlotach yn aml yn cael canlyniadau sy'n is na'r cyfartaledd. Roedd cyfradd y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim yn Sir y Fflint ym mis Ionawr 2010 y pedwerydd isaf yng Nghymru sef 12.8 y cant o gymharu â ffigur Cymru o 18.9 y cant. Byddai hyn yn awgrymu y dylai cyrhaeddiad plant yn Sir y Fflint fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.

76 Mae canlyniadau ar gyfer disgyblion yn Sir y Fflint a ledled Cymru wedi codi mewn blynyddoedd diweddar. Ar ddiwedd addysg gynradd mae canlyniadau cyffredinol ar gyfer plant yn Sir y Fflint yn agos at gyfartaledd Cymru. Mae canlyniadau ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd yn is na'r lefelau disgwyliedig ond mae'r bwlch hwn wedi lleihau. Erbyn 14, mae'r canlyniadau'n llawer uwch na'r cyfartaledd. Mae'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 16 a 18 oed sy'n cael TGAU a lefel 'A', neu gyfwerth, yn dangos bod Sir y Fflint ymysg y grŵp uchaf o gynghorau yng Nghymru. Ar gyfer rhai mesuriadau, canlyniadau Sir y Fflint yw'r gorau.

77 Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn ystyried pa mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau. Maent yn cynnal arolygiadau o ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi yn ogystal â mynegi barn ar y gefnogaeth a geir gan gynghorau darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, trwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda chyfarwyddwyr addysg er mwyn dod i gasgliad ynglŷn â rôl y Cyngor am berfformiad addysg yn yr ardal. Bydd Estyn yn cynnal arolygiad o ansawdd a safon darpariaeth pobl ifanc rhwng 14-19 yn Sir y Fflint ym mis Ionawr 2011.

## A yw'r Cyngor yn gwella'r ddarpariaeth dysgu a meithrin sgiliau am oes?

78 Dyma'r blaenoriaethau y mae'r Cyngor wedi cytuno arnynt i helpu gyda dysgu (yn gryno):

- datblygu a gweithredu'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion gan sicrhau'r lefel uchaf bosibl o 'wariant fesul disgybl';
- cyflawni nodau ac amcanion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion;
- cyflawni nodau ac amcanion y Strategaeth Drawsnewid 14-19 a bod yn bartner addysgol ac economaidd effeithiol gyda sectorau addysg uwch ac addysg bellach;
- datblygu ymhellach y Cyfnod Sylfaen ar gyfer oedran cyn ysgol;
- cyflawni amcanion y cynllun gweithredu a fabwysiadwyd yn dilyn arolygiad diwethaf Estyn.

79 Mae'r rhain i gyd yn flaenoriaethau priodol ar gyfer y Cyngor sy'n mynd i'r afael â meysydd newid a gwella. Fe'u hadlewyrchir yn rhannol yn yr Asesiad Strategol o'r Risgiau a'r Sialensiau sy'n cynnwys Moderneiddio Ysgolion, a Dysgu a Datblygu. Mabwysiadwyd y blaenoriaethau ar ôl llunio drafft o'r *Cynllun Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes ar gyfer 2010*. Mae'r blaenoriaethau'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyfarwyddiaeth ynghyd ag amrywiaeth o flaenoriaethau eraill hefyd.

80 Mae'r Cyngor wedi cytuno ar Strategaeth Foderneiddio Ysgolion ac mae'n gwneud peth cynnydd, yn enwedig gyda threfniant ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd ynglŷn â chyllido'r moderneiddio uwchradd ac ôl-16 wedi oedi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau manwl.

81 Er bod llai o leoliadau ysgol yn Sir y Fflint heb eu llenwi nag mewn llawer o gynghorau, mae cyfran sylweddol o lefydd gwag mewn tua un o bob pump ysgol gynradd a phedair o bob 12 ysgol uwchradd. Mae'r Cyngor wedi asesu y bydd angen gwario tua £40 miliwn i atgyweirio'r problemau gyda chyflwr ei ysgolion.

82 Daethpwyd i gytundeb ar uno rhai o ysgolion cynradd ac mae cynigion eraill wrthi'n mynd trwy'r prosesau ymgynghori ffurfiol. Mae 'Grant Gwella Adeiladau Ysgol' o £4.5 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad a £1.9 miliwn o wariant cyfalaf y Cyngor yn cefnogi cynlluniau i ail-drefnu ysgolion cynradd yn Shotton. Mae gwaith ar fin dechrau hefyd ar ysgol newydd yng Nghei Connah ym mis Ionawr 2011 yn lle'r ysgolion cynradd a babanod a oedd ar wahân.

83 Mae Sir y Fflint yn un o'r ychydig o gynghorau sydd wedi ystyried dyfodol eu hysgolion arbennig fel rhan o'u cynllunio strategol cyffredinol ar gyfer gwella ysgolion. Ym mis Medi 2009, caewyd tair ysgol arbennig ar gyfer disgyblion o bob oedran, gan y Cyngor, gydag anghenion dysgu cymedrol, difrifol a dwys/cymhleth, gan ddarparu dwy ysgol arbennig newydd yn eu lle, un gynradd ac un uwchradd, wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd yn Sir y Fflint. Mae'r datblygiad hwn wedi sicrhau gwell darpariaeth addysgol arbennig a gwell gwerth am arian.

84 Mae'r gwaith o foderneiddio ysgolion uwchradd a darpariaeth ôl-16 wedi gwneud llai o gynnydd. Mae `Achos Amlinellol Strategol' sy'n nodi'r egwyddorion a'r dewisiadau ar gyfer trefniadau ysgol uwchradd a choleg ar gyfer pobl ifanc 14-19 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ond mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid cyfalaf yn y dyfodol yn rhwystro cynnydd cyflym. Ni fydd yn bosibl penderfynu ar gynigion penodol ar gyfer newid nes y bydd yn eglur faint o arian sydd ar gael.

85 Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn rhaglen uchelgeisiol gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n ceisio gwella ysgolion er mwyn gwella canlyniadau. Treialwyd elfen Cymuned Ddysgu Broffesiynol y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn llwyddiannus gan y Cyngor ym mhob un o'i ysgolion a bydd y Fframwaith yn arwain trefniadau'r Cyngor ar gyfer gwella ysgolion. Mae'n gweithio'n agos gyda chynghorau eraill yn y Gogledd i ddatblygu gwasanaeth rhanbarthol i wella ysgolion a fydd yn gydnaws â datblygiad y Fframwaith ledled y rhanbarth.

86 Mae pedair ysgol yn y sir wedi'u nodi gan Estyn fel rhai sy'n destun pryder ac sydd angen mesurau arbennig, gwelliannau sylweddol neu sy'n destun camau dilynol. Gwelir effeithiolrwydd dulliau'r Fframwaith o wella ysgolion yn y ffordd y mae'r Cyngor yn nodi, herio a chefnogi ysgolion ac yn helpu i sicrhau gwell addysg ar gyfer plant a phobl ifanc.

87 Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi derbyn y dylid trawsnewid addysg ar gyfer pobl ifanc rhwng 14-19 oed er mwyn cyrraedd targedau cenedlaethol newydd. Mae wedi gwneud cynnydd da wrth helpu ysgolion a Choleg Glannau Dyfrdwy i weithio gyda'i gilydd i gynnig gwell amrywiaeth o gyrsiau. Mae wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen 14-19 hefyd i ddatblygu cynigion i drefnu ysgolion yn fwy effeithlon ac effeithiol, i godi safonau a gwella adeiladau ar gyfer plant.

88 Mae gwaith yn y maes hwn hefyd yn cyfrannu at flaenoriaeth y Cyngor o ddatblygu'r economi leol trwy drafnidiaeth, cyfathrebu, defnyddio tir ac asedau ac addysg. Bydd arolygiad Estyn ym mis Ionawr 2011 yn rhoi mwy o wybodaeth am gynnydd.

89 Mae Cyfnod Sylfaen addysg plant tair i saith oed yn golygu bod plant yn dysgu trwy weithgareddau a chwarae ac mae wedi'i gyflwyno'n llawn trwy Gymru ers Medi 2010. Mae'r Cyngor wedi cefnogi'r datblygiad hwn ac mae wedi rhoi cefnogaeth frwdfrydig ac arbennig i'r gwaith o hyfforddi oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen.

90 Y tro nesaf y byddwn yn cyflwyno adroddiad gobeithiwn y bydd modd i ni wneud sylwadau manylach ar sut y mae'r Cyngor yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau.

# A yw Cyngor Sir y Fflint yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus, a difyr i fyw ynddo?

## Gwybodaeth gefndir

91 Mae cyfradd troseddu Sir y Fflint yn is na chyfartaledd Cymru gyda 59.17 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Difrod troseddol (26 y cant) a thrais yn erbyn y person (21 y cant) sy'n cyfrif am gyfraddau uchaf y troseddau hyn. Mae cyfradd y troseddau a gofnodir wedi gostwng i 70 y cant o'r ffigur saith mlynedd yn ôl.

92 Yn 2009-10, yn Sir y Fflint, roedd cyfran y ffyrdd a oedd mewn cyflwr gwael ymysg yr isaf yng Nghymru.

93 Yn 2008, roedd cyfran y boblogaeth mewn cyflogaeth yn Sir y Fflint yn un o'r uchaf ymysg y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2010, roedd 3.3 y cant neu 3,100 o drigolion oedran gweithio'r boblogaeth yn datgan eu bod yn ddi-waith trwy hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Cenedlaethol. Roedd cyfartaledd Cymru yn 3.6 y cant.

94 Yn 2009 roedd enillion wythnosol cyfartalog Sir y Fflint yn £538, y trydydd uchaf ymysg y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

## A yw'r Cyngor yn helpu ffyniant economaidd?

95 Dyma amcanion gwella'r Cyngor er mwyn hyrwyddo ffyniant economaidd:

- diogelu, hyrwyddo a datblygu'r economi leol trwy'r seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu, y defnydd o dir ac asedau, a'r system addysg;
- cytuno ar strategaeth gyda Llywodraeth y Cynulliad i leihau tagfeydd traffig ar gyfnewidfa'r A494/A55 a rhwydwaith ffyrdd cysylltiol y sir;
- cytuno ar gynllun i ailfodelu Clwyd Theatr Cymru ac ymgyrchu am gefnogaeth cyllid cyfalaf cenedlaethol.

96 Gall y Cyngor gael cryn ddylanwad ar gefnogi a datblygu'r economi leol ac mae hyn yn amcan priodol. Mae cofnodion risg SARC wedi'u gwneud ar gyfer adfywio economaidd, adfywio trefi, seilwaith trafnidiaeth a sgiliau cyflogwyr.

97 Er bod peth cynnydd wedi'i wneud ar ddatblygu'r Strategaeth Adfywio a chynorthwyo busnesau lleol, gellid gwella eglurder yr hyn y bwriedir ei gyflawni, y cyfrifoldebau a'r dull o fonitro cynnydd. Cytunodd y Cyngor a Phartneriaeth Adfywio Sir y Fflint (y Bartneriaeth) hefyd ar Strategaeth Adfywio Sir y Fflint 2009-2020 ym mis Hydref 2009. Mae gwaith y Bartneriaeth yn cynnwys trafod a chytuno ar flaenoriaethau'r ceisiadau am gyllid i gefnogi'r strategaeth a monitro ac adolygu cynnydd. Er iddo gael ei sefydlu yn 2005, nid oedd y bartneriaeth yn gorff cryf ac mae'r Cyngor wedi arwain y gwaith o'i adolygu a'i gryfhau. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

98 Mae'r Strategaeth Adfywio'n cynnwys nifer o dargedau ond ni chyflwynwyd adroddiad o'u cynnydd i'r Cyngor. Mae gwaith monitro perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar gyfres fach o amcanion ar gyfer eu cynnwys yn Wythnos Fusnes Sir y Fflint a bodlonrwydd busnesau lleol. Y bwriad oedd adolygu'r Strategaeth yn flynyddol. Rydym yn credu y dylid gwneud hyn yn y chwe mis nesaf, cytuno ar ddulliau cliriach o fesur canlyniadau a gwella'r dull adrodd ar gynnydd i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi dweud y bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu ym mis Chwefror.

99 Mae tagfeydd traffig ar gyfnewidfa'r A494/A55 wedi bod yn broblem hir dymor ac mae'r Cyngor a'i gynghorau partner yn 'Taith', y grŵp trafnidiaeth rhanbarthol ar gyfer y Gogledd, wedi codi'r mater gyda Llywodraeth y Cynulliad. Dechreuir ar y cam nesaf unwaith y bydd adroddiad ymgynghorydd ar faterion trafnidiaeth yn yr ardal yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2011.

100 Theatr sy'n eiddo i'r Cyngor yw Clwyd Theatr Cymru, a chaiff ei hariannu'n rhannol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Bwrdd y theatr sy'n gyfrifol am ei rhedeg ac mae mwyafrif yr aelodau yn gynghorwyr ar Gyngor Sir y Fflint. Nid oes cofnod o risg SARC ar gyfer y theatr ac nis oes trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod cynghorwyr a'r cyhoedd yn ymwybodol o'r gost a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r theatr. Disgwylir y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn nodi rhai o'r materion a'r cynigion ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb yn y dyfodol agos.

## A yw'r Cyngor yn helpu i wella'r amgylchedd?

101 Dyma amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer gwella'r amgylchedd a byw'n gynaliadwy:

- cyflawni ein targedau lleihau gwastraff ac ailgylchu gyda lefelau uchel o gymorth a chyfranogiad y cyhoedd;
- mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol a bwrw ati ar unwaith gyda'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n ei ddisodli;
- ailffurfio a gwella'r gwasanaethau stryd;
- gwelliant pellach i ansawdd, hyblygrwydd a pherfformiad gwasanaethau rheoli datblygiadau cynllunio;
- lleihau defnydd y Cyngor o ynni ac allyriadau carbon.

102 Mae'r rhain i gyd yn faterion pwysig a hir dymor gan mwyaf ar gyfer y Cyngor sydd wedi'u cynnwys yn y SARC.

103 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â materion rheoli gwastraff yn y tymor canolig a'r hir dymor. Maent wedi arwain y prosiect caffael ar gyfer Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru gyda phedwar o gynghorau eraill y Gogledd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi grant o £142 miliwn i gefnogi'r prosiect hwn.

104 Mae partneriaeth i ddatblygu safle treulio anaerobig i drin gwastraff bwyd yn y Gogledd Ddwyrain ar waith gyda Sir Ddinbych a Sir Conwy. Disgwylir i'r cyfleuster hwn agor ym mis Ebrill 2012 a bydd yn trin y gwastraff bwyd a gaiff ei gasglu gan y tri chyngor.

105 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu strategaeth wastraff ddiwygiedig hefyd sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni targedau gwastraff yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn dibynnu ar dybiaethau ynglŷn â chostau a chyfraddau casglu a chyllid grant Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n anochel bod rhai risgiau'n gysylltiedig â'r tybiaethau hyn.

106 Mae perfformiad cyfredol yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer trin gwastraff yn weddol agos at gyfartalion Cymru. Mae newidiadau mawr wedi'u cynllunio i drefniadau casglu ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda'r bwriad o wella perfformiad.

107 Bu llawer o oedi wrth fabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir y Fflint er mwyn diweddaru cynlluniau lleol cyfredol ar gyfer Delyn (o 1993) ac Alyn a Glannau Dyfrdwy (2003). Mae cynlluniau datblygu yn rhoi sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Dylai cynghorwyr ddod i benderfyniadau yn unol â'u cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau sylweddol eraill. Roedd disgwyl i Gynghorau fabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol newydd ac mae'r mwyafrif wedi gwneud hynny. Cytunodd y Cynghorwyr mewn egwyddor i fabwysiadu cynllun yn amodol ar adolygu rhai elfennau. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2010, nid oedd y Cyngor wedi cwblhau'r broses o fabwysiadu ei Gynllun Datblygu Unedol.

108 Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen i wella ei wasanaethau stryd a gorfodi'r amgylcheddol ac mae rhaglenni gweithredu ar waith. Nod gwasanaethau'r stryd yw darparu strydoedd glân, diogel, hygyrch a deniadol. Mae'r gwasanaethau'n cydweithio'n agos â'r gwasanaethau gorfodi sy'n mynd i'r afael ag ysbwriel, cŵn yn baeddu, graffiti a phroblemau eraill. Roedd perfformiad y gwasanaethau gorfodi wedi cael ei effeithio gan fod llai o staff yn gweithio i'r tîm gorfodi. Mae hyn wedi gwella a'r gwaith oedd heb ei wneud bellach yn cael sylw. Mae'r Cyngor wedi cytuno gyda Heddlu Gogledd Cymru y byddai swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn cefnogi camau gorfodi ar gŵn yn baeddu ac ysbwriel a dechreuodd rhaglen orfodi newydd ym mis Gorffennaf 2010.

109 Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd i wella ei wasanaethau rheoli datblygiadau cynllunio sy'n ymdrin â phob agwedd ar geisiadau cynllunio. Roedd gan y Cyngor wasanaeth a oedd yn perfformio'n wael ac fe'i beirniadwyd yn adroddiad yr archwilydd yn 2007. Roedd adolygiad pellach yn 2009 yn nodi y bu gwelliant sylweddol. Mae cynnydd wedi parhau yn dilyn adolygiad o brosesau yn yr adran er bod peth oedi'n parhau wrth ymdrin â rhai ceisiadau cynllunio mawr a rhai agweddau eraill o'r gwasanaeth.

110 Mae'r Cyngor yn dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad da i reoli ei allyriadau carbon nawr ac yn y dyfodol er y gellid gwneud rhai gwelliannau pellach yn y gwaith o reoli carbon ac ynni ar draws pob adran. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â lleihau carbon ac mae'r mwyafrif o'r meysydd perfformiad yn gwella. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi gwneud ymrwymiad bod rheoli carbon yn un o'i flaenoriaethau er nad yw'n glir sut mae hyn yn datblygu. Roedd adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010 yn gadarnhaol ynglŷn â chynnydd yn y maes hwn ond roedd yn nodi hefyd nad oedd llawer o adrannau'r Cyngor eto'n dangos eu cyfraniad eu hunain tuag at leihau'r defnydd o ynni a charbon yn eu cynlluniau eu hunain.

## A yw'r Cyngor yn helpu i feithrin cymunedau diogel a chefnogol?

111 Dyma amcanion gwella'r Cyngor er mwyn meithrin cymunedau diogel a chefnogol:

- gwella dulliau gorfodi'r cyngor yn enwedig mewn gwasanaethau amgylcheddol, glanweithdra 'tir y cyhoedd' ac wrth reoli datblygiadau cynllunio;
- estyn effaith gwasanaethau diogelu'r cyhoedd i ddiogelu cymunedau ac iechyd y cyhoedd;
- sicrhau bod y cyhoedd yn fwy hyderus ynghylch diogelwch eu cymunedau mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill;
- hyrwyddo cyfrifoldeb dinasyddion i gefnogi gwaith y gwasanaethau cyhoeddus er enghraifft atal troseddu, gorfodi, cyfranogiad cymunedol a gweithredu yn y gymuned.

112 Mae'r grŵp hwn o flaenoriaethau'n cynnwys meysydd pwysig sy'n destun pryder i drigolion megis sut y mae mannau cyhoeddus yn cael eu cadw'n daclus a sut mae trin ac atal pobl sy'n camymddwyn. Maent yn flaenoriaethau priodol ond nid yw bob amser yn glir beth y bwriedir ei gyflawni. Nid oes cofnodion risg SARC ar gyfer prif wasanaethau diogelu'r cyhoedd nac ar gyfer blaenoriaethau diogelwch y gymuned a chyfranogiad dinasyddion.

113 Mae rhai gwendidau yng ngwasanaeth diogelu'r cyhoedd eisoes yn cael sylw ac mae gwelliannau'n cael eu gwneud i gefnogi agenda ehangach iechyd y cyhoedd ac i fod yn fwy ymatebol i'w ddefnyddwyr. Mae gwasanaeth diogelu'r cyhoedd yn gyfrifol am archwilio safleoedd lle y caiff bwyd ei baratoi a'i werthu, a gorfodi cyfreithiau a rheoliadau iechyd anifeiliaid, iechyd a diogelwch a safonau masnach. Mae'n cyfrannu at leihau ac at ymdrin ag unrhyw achosion o haint fel E.coli ac mae'n cyfrannu at faterion ehangach fel lleihau ysmygu a'r camddefnydd o alcohol ymysg pobl ifanc.

114 Rhan allweddol o sicrhau gwasanaeth da yw bod y gwahanol elfennau yn gweithio gyda'i gilydd. Mae gwasanaeth amddiffyn y cyhoedd yn cael ei ad-drefnu i wella'r trefniadau hyn. Mae proses ymgynghori (sef SERVQUAL) wedi'i gyflwyno er mwyn canfod i ba raddau y mae trigolion a busnesau yn teimlo bod y gwasanaeth yn bodloni eu disgwyliadau.
Yn ôl y canlyniadau, roedd cyfradd bodlonrwydd cyffredinol o 78 y cant ond roedd hefyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r hyn a ddisgwylid gan y gwasanaeth a bydd modd ei defnyddio er mwyn ei helpu i wella'r gwasanaeth.

115 Cyflawnodd y Cyngor y gofynion i archwilio pob safle bwyd ac iechyd anifeiliaid risg uchel yn 2009-10 er bod perfformiad wedi gostwng ar gyfer gwaith safonau masnach ac iechyd a diogelwch.

116 Nid yw'r blaenoriaethau ar gyfer meithrin hyder mewn diogelwch cymunedau ac ar gyfer hyrwyddo cyfrifoldebau dinasyddion wedi eu nodi o'r blaen fel blaenoriaethau allweddol. Bydd y Cyngor a'i bartneriaid angen datblygu cynlluniau clir ar eu cyfer ac ar gyfer trefniadau i fonitro cynnydd.

# Beth ddylai Cyngor Sir y Fflint ei wneud?

117 O ystyried amrywiaeth eang y gwasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau sydd angen eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad y dylent ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw yn gyhoeddus o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os ydym yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddynt fynd i'r afael â nhw a byddwn yn dilyn yr hyn sy'n digwydd.

118 Yn dilyn ein gwaith mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell y dylai'r Cyngor ystyried ein cynigion er mwyn ei helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol**

Dylai'r Cyngor:
- adolygu trefniadau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad priodol cynghorwyr yn cael eu cynnal;
- cwblhau gwaith ar Fframwaith Cynllun y Cyngor (Llywodraethu);
- datblygu proses i alluogi dyrannu adnoddau i'r blaenoriaethau;
- cwblhau Strategaeth y Bobl 2009-2012 a'r cynllun gweithredu.

**Cynigion ychwanegol**

Dylai'r Cyngor:
- cwblhau adolygiad o Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth, eu mabwysiadu'n ffurfiol fel blaenoriaethau'r Cyngor, a'u cyhoeddi'n eang;
- sefydlu bod trefniadau arwain ac atebolrwydd clir, mesurau llwyddiant a phrosesau cofnodi cynnydd ar gyfer yr holl flaenoriaethau.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am yr Archwilydd Cyffredinol a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[3]

3 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Bydd rhai amgylchiadau hefyd yn peri bod yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint

Yn 2008-09 gwariodd y Cyngor £288 miliwn, sef £1,909 fesul trigolyn. Yn y flwyddyn honno gwariodd £37 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

£1,080 y flwyddyn oedd y dreth gyngor band D gyfartalog yn Sir y Fflint yn 2009-10. Bydd yn codi 3.25 y cant i £1,115 y flwyddyn yn 2010-11. Mae 69 y cant o dai Sir y Fflint yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae yna 70 o gynghorwyr ar gyfer Sir y Fflint sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 22 Llafur
- 18 Annibynnol ac Amhleidiol
- 10 Democratiaid Rhyddfrydol
- 9 Ceidwadwyr
- 9 Annibynnol Newydd
- 1 Plaid Cymru
- 1 Annibynnol arall

Yr Arweinydd yw'r Cynghorydd Arnold Woolley.

Y Prif Weithredwr yw Colin Everett, a'r Cyfarwyddwyr yw:

- Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Carl Longland
- Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes – Ian Budd
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol – gwag (Y Prif Weithredwr yn y swydd dros dro)

Aelodau Cynulliad Sir y Fflint yw:

- Sandy Mewies, Delyn, Llafur
- Carl Sargeant, Alun a Glannau Dyfrdwy, Llafur

Aelodau Seneddol Sir y Fflint yw:

- David Hanson, Delyn, Llafur
- Mark Tami, Alun a Glannau Dyfrdwy, Llafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun, www.siryfflint.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NB (Ffôn: 01352 752121).

# Atodiad 3

## Asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Awst 2010.

**Casgliad cyffredinol**
Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwrw ati i hyrwyddo gwelliant er bod rhai trefniadau heb eu datblygu'n llawn.

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ar ôl cyfnod o gynnydd anghyson ac er y bu cynnydd, nid yw rhai trefniadau corfforaethol wedi'u datblygu'n llawn hyd yn hyn.

- cyn 2007, roedd rheolaeth wleidyddol gliriach ond roedd rheolaeth gorfforaethol yn anghyson ac ni lwyddodd y Cyngor i fynd i'r afael â rhai heriau allweddol;
- ers 2007, mae arweiniad mwy proffesiynol ac effeithiol wedi gwella rheolaeth gorfforaethol ac wedi helpu i hyrwyddo gwelliant er gwaethaf y sefyllfa wleidyddol fregus;
- mae'r Cyngor yn dechrau sefydlu ei flaenoriaethau a'i drefniadau er mwyn mynd i'r afael â'r dyfodol ariannol ond mae'r sefyllfa wleidyddol a'r posibiliadau ar gyfer newid yn cyflwyno risgiau parhaus.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae arweiniad y Cyngor wedi hyrwyddo newid mewn dull cadarnhaol a bu llawer o welliannau mewn trefniadau er nad aethpwyd i'r afael â rhai meysydd o risg yn llwyr hyd yn hyn.

- mae arweinyddiaeth yr aelodau etholedig a'r uwch swyddogion yn ymdrechu i hyrwyddo gwelliant ond mae'r sefyllfa wleidyddol yn parhau'n fregus;
- mae trefniadau llywodraethu yn effeithiol ar y cyfan ond mae rhai materion heb gael sylw hyd yma;
- bydd dull adeiladol o weithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant yn y dyfodol;
- mae fframwaith polisi strategol cliriach yn dod i'r amlwg er bod rhai agweddau'n dal i gael eu datblygu;
- mae'r Cyngor wedi elwa ar reolaeth ariannol dda ond bu pwysau sylweddol ar wasanaethau a pheth gorwariant yn 2008-2010; mae'r Cyngor yn dechrau datblygu fframwaith er mwyn mynd i'r afael â heriau ariannol a datblygu dull o gynllunio ariannol sy'n gysylltiedig ag amcanion sy'n flaenoriaeth;
- mae prosesau busnes wedi gwella'n sylweddol yn y tair blynedd ddiwethaf ond mae lle i ddatblygu ymhellach er mwyn cefnogi gwelliant mewn dull mwy effeithiol;
- er gwaethaf rhai gwelliannau i'r gwasanaeth adnoddau dynol, mae trefniadau ar gyfer rheoli pobl yn cynnwys risgiau parhaus a all lesteirio'r gwaith o sicrhau gwelliant.

I weld yr adroddiad llawn ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir y Fflint

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi rhoi'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailystyried y ffordd y dylid cyflwyno canfyddiadau'r archwiliad ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad i gyrff llywodraeth leol. Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf a bydd llawer o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig (y cyfrifon, y casgliad gwerth am arian a'r archwiliad o'r cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir y Fflint â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae cyfleoedd i wella ei reolaethau ariannol mewn rhai meysydd ac mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei drefniadau cynllunio ariannol yn y dyfodol i'w helpu i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sy'n ei wynebu.**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Roedd fy adroddiad yn cynnwys pwyslais mater ar Gronfa Bensiwn Clwyd. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol:

- ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol gennym yn eich rheolaethau mewnol er bod nifer o wendidau wedi'u cofnodi o ran rheolaethau mewn perthynas â'r gyflogres, budd-daliadau tai, dilysu asedau, cysoni pensiynau a gweithdrefnau rheoli arian parod;
- paratowyd y datganiadau cyfrifyddu erbyn y dyddiad terfyn ac roeddent wedi'u hategu'n dda ar y cyfan, er y bu rhywfaint o oedi ac y nodwyd gwelliannau y cyflwynir adroddiad ar wahân arnynt;
- roedd angen y pwyslais mater yng nghyfrifon y gronfa bensiwn er mwyn cyfeirio at yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â'r gwaith prisio buddsoddiadau heb eu dyfynnu a wnaed ar y fantolen, sef £139 miliwn, a gwnaethom gyfeirio at y ffaith bod angen i'r Cyngor ddatblygu trefniadau i sicrhau bod prisiadau'r asedau hyn yn gywir.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae trefniadau rheoli'r gyllideb yn ddigon cadarn i roi sicrwydd perthnasol i ni o ran y datganiadau ariannol, ond mae cyfleoedd i wella ymhellach.
- Mae trefniadau cynllunio ariannol ar gyfer y dyfodol yn datblygu a bydd angen iddynt fynd rhagddynt yn gyflym er mwyn cefnogi rhaglen Dyfodol Sir y Fflint a helpu'r Cyngor i ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sy'n ei wynebu. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.
- Nododd ein hasesiad o'r Archwiliad Mewnol yn erbyn safonau CIPFA fod y swyddogaeth wedi cydymffurfio'n llawn â saith o'r 11 o safonau a'i bod wedi cydymffurfio'n rhannol â'r pedair safon arall.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2011 yn bodloni'r gofynion statudol a bydd Adroddiad yr Asesiad Gwella yn awgrymu rhagor o welliannau.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2010.
Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-2010 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

John Herniman
Partner
Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Sir y Fflint

*O adroddiad Datganiad o Flaenoriaethau'r Weinyddiaeth 2010-2012, Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir y Fflint, 12 Mai 2010.*

Nod y Cyngor yw diogelu ansawdd bywyd ei gymunedau a'i wella. Gyda'n partneriaid lleol, rydym wedi ymrywo i Weledigaeth ar gyfer y Sir dan bum thema. Yr hyn sy'n dilyn yw cyfres o flaenoriaethau ar gyfer 2010-12 a dyma ein cyfraniad ni ar gyfer cyflawni'r Weledigaeth honno.

**Llywodraethu a Pherfformio Corfforaethol**

1. Hyrwyddo a chynnal enw da cadarnhaol a sicr i'r Cyngor a'r sir yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
2. Parhau i wneud newidiadau graddol i ddiwylliant, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, cymhwysedd, a pherfformiad y sefydliad yn gorfforaethol ac wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
3. Datblygu a dilyn strategaeth ariannol gadarn yn y tymor canolig a'r tymor hir gan gynnal lefel fforddiadwy o'r Dreth Gyngor ar gyfer trethdalwyr lleol.
4. Goroesi a ffynnu yn sgil y gostyngiadau mewn refeniw a chyfalaf ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y blynyddoedd nesaf a pharhau i wella a pherfformio fel sefydliad gwasanaethau cyhoeddus.
5. Cyrraedd lefelau uchel a chyson o wasanaeth cwsmeriaid a datblygu gwasanaethau cyswllt cwsmeriaid personol ac o bell mwy hyblyg trwy Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid uchelgeisiol.
6. Cyflawni nodau ac amcanion Strategaeth y Bobl gyda phwyslais ar ddulliau rheoli pobl, rheoli perfformiad, rheoli presenoldeb a gweithio ystwyth.
7. Cyflawni Cytundeb Statws Sengl cyfreithiol, derbyniol a fforddiadwy.
8. Gweithredu cynlluniau parhad busnes effeithiol i ddiogelu gwasanaethau allweddol.
9. Moderneiddio a gwella gweithdrefnau a pherfformiad y cyngor mewn dulliau caffael, cyflawni amcanion Polisi Agor Drysau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer busnesau bach a chanolig a chyflawni targedau effeithlonrwydd ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol.
10. Manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio tir a sylfaen asedau'r Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r cyngor ac ennill y derbyniadau neu'r incwm cyfalaf mwyaf posibl.

**Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol**

1. Diogelu, hyrwyddo a datblygu'r economi leol trwy'r seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu, y defnydd o dir ac asedau, a'r system addysg.
2. Ailffurfio a gwella'r Gwasanaethau Stryd.
3. Gwella dulliau gorfodi'r cyngor yn enwedig mewn gwasanaethau amgylcheddol, glanweithdra 'tir y cyhoedd' ac wrth reoli datblygiadau cynllunio.

4 Estyn effaith Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd i ddiogelu cymunedau ac iechyd y cyhoedd.

5 Cyflawni ein targedau lleihau gwastraff ac ailgylchu trwy strategaethau lleol a rhanbarthol, a thrwy hynny atal cosbau tordyletswydd, gyda lefelau uchel o gymorth a chyfranogiad y cyhoedd.

6 Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol a bwrw ati ar unwaith gyda'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n ei ddisodli.

7 Gwelliant pellach i ansawdd, hyblygrwydd a pherfformiad gwasanaethau rheoli datblygiadau cynllunio.

8 Lleihau defnydd y Cyngor o ynni ac allyriadau carbon.

9 Cytuno ar strategaeth gyda Llywodraeth y Cynulliad i leihau tagfeydd traffig ar gyfnewidfa'r A494/A55 a rhwydwaith ffyrdd cysylltiol y sir fel rhan allweddol o'r cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol.

10 Darparu cyflenwad o dai fforddiadwy trwy 'Strategaeth Tai Fforddiadwy'.

11 Gwneud gwelliannau cyflym ac amlwg i ansawdd, hyblygrwydd a pherfformiad y gwasanaethau rheoli trwsio a chynnal a chadw tai a gwella perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai.

12 Pennu dyfodol stoc tai'r Cyngor trwy bleidlais tenantiaid a thrwy strategaeth i gyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru.

13 Cyhoeddi Ardal Adnewyddu Cymdogaeth gyntaf y Cyngor.

14 Sicrhau bod y cyhoedd yn fwy hyderus ynghylch diogelwch eu cymunedau mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill.

15 Diogelu oedolion, pobl hŷn a phlant agored i niwed mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol a phartneriaid eraill.

16 Hyrwyddo byw'n annibynnol a byw â chymorth yn y gymuned trwy ofal cartref cynaliadwy a fforddiadwy, pecynnau cymorth gofal hyblyg, integreiddio gwasanaethau gyda phartneriaid eraill.

17 Darparu dewisiadau hyblyg o ran byw â chymorth gan gynnwys darpariaeth tai gofal ychwanegol estynedig.

18 Cynllunio i ddiwallu anghenion gofal amrywiol a chymhleth y gymdeithas gan gynnwys darpariaeth estynedig o wasanaethau demensia.

19 Lleihau tlodi eithafol, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol er mwyn rhoi cyngor ac estyn y defnydd o fudd-daliadau, mewn partneriaeth ag eraill.

20 Datblygu polisi cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir.

21 Gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr newydd i ymestyn a gwella mynediad i ofal iechyd sylfaenol, i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac i wella'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach.

22 Datblygu'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, gan gyflawni'n raddol ei nodau a'i hamcanion gan sicrhau'r lefel uchaf bosibl o 'wariant fesul disgybl'.

23 Cyflawni nodau ac amcanion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

24 Cyflawni nodau ac amcanion y Strategaeth Drawsnewid 14-19 a bod yn bartner addysgol ac economaidd effeithiol gyda sectorau addysg uwch ac addysg bellach, yn enwedig Coleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr.

25 Datblygu ymhellach y Cyfnod Sylfaen ar gyfer oedran cyn ysgol.

26 Cyflawni amcanion y cynllun gweithredu a fabwysiadwyd gan y Cyngor mewn ymateb i Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Lleol.

27 Cyflawni nodau ac amcanion ei Strategaeth Hamdden Actif.

28 Cytuno i ariannu cynllun i ailfodelu Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

29 Cytuno ar gynllun i ailfodelu Clwyd Theatr Cymru ac ymgyrchu am gefnogaeth cyllid cyfalaf cenedlaethol.

30 Hyrwyddo cyfrifoldeb dinasyddion i gefnogi gwaith y gwasanaethau cyhoeddus e.e. atal troseddu, gorfodi, cyfranogiad cymunedol a gweithredu yn y gymuned.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw’r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o’r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefan a chynlluniau gwella’r Awdurdod ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol